CYNGOR CYMUNED BRYNGWRAN
COMMUNITY COUNCIL

COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD NOS FERCHER
9 Mehefin 2021
AM 7.30 TRWY ZOOM

YN BRESENNOL: Cyng I Roberts, P Roberts, J Earnshaw, E Huws, C Griffiths, R G Parry, G Parry, S Jones, G Owen (Clerc),	
YMDDIHEURIADAU: Cyng H Eddings, E Law Shui Nicholson, D Rees (Cyngor Sir), N Roberts (Cyngor Sir)	
1	Cadeirwyd y cyfarfod gan y Cadeirydd Cyng I Roberts.
2	**DATGAN DIDDORDEB** – E Huws – Rhodd Diwrnod Hwyl
3	**DERBYN COFNODION** Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod 12.05.21
4	**MATERION YN CODI O'R COFNODION**
4.1	Willow Tunnel – Dywedodd y Clerc bod y contractwr Mr R Williams wedi dechrau gwneud y gwaith. Mae'r contractwr wedi nodi bod gan eiddo wrth ymyl y cae chwarae bibell ddraenio sy'n mynd trwy ei ffens i'r cae chwarae. Cynigiodd y Cadeirydd ymchwilio i'r mater.
4.2	**Gor-yrru Bryngwran** - Dywedodd y Clerc ei bod yn bosibl cael goleuadau sy'n fflachio yn cael eu harddangos yn Gymraeg. Mae'n disgwyl am fanylion cyflenwyr pellach gan y Cyngor Sir a chost eu gosod. Bydd hefyd yn edrych ar ganlyniadau mewn meysydd eraill. Mae'r Cadeirydd wedi siarad â'r Heddlu ac mae 10 wedi cael eu dal yn goryrru yn ddiweddar. Bydd fan Gan Bwyll yn parhau i ymweld â Bryngwran unwaith y mis.
4.3	**Lon y Fynwent** – Mae'r Clerc wedi derbyn 2 pris am trin y lon – Hogans £13198, R G Hire £3700. Mae'n chwilio am arian grant ar gyfer y gwaith
5	**ADRODDIAD y CADEIRYDD** – Dywedodd y Cadeirydd fod rhannau o'r matiau newydd ar y cae chwarae yn dechrau codi. Mae wedi anfon lluniau at y Clerc sydd wedi eu hanfon ymlaen at y cyflenwr. Cytunwyd y bydd y Clerc yn tynnu lluniau ychwanegol ac yn eu hanfon at y cyflenwr.
	Llofnod…….Cadeirydd 14.07.21

6	**GOHEBIAETH CYNGOR YNYS MON**
	Cynllunio
6.1	VAR/2021/36 Monarfon, Ty Croes – dim sylwadau
7	**GOHEBIAETH YCHWANEGOL**
	Dim
8	**MATERION ERAILL**
8.1	Diwrnod Hwyl - Y gobaith yw cael rhai stondinau yn yr lorwerth eleni gyda gweddill y digwyddiad yn rhithwir. Cytunwyd i roi £ 250 i'r digwyddiad - y Cynghorydd I Roberts yn cynnig a'r Cynghorydd P Roberts yn eilio
8.2	**Paentio cae chwarae** – Cytunwyd bod angen atgyweiriadau i rai o'r offer cyn paentio. Bydd y Clerc yn cael prisiau am y gwaith atgyweirio
8.3	**Llygod mawr** - Cytunwyd i dynnu'r eitem hon o'r agenda
8.4	**Llwybrau cyhoeddus** - Cytunwyd i dynnu'r eitem hon o'r agenda
8.5	**Arwydd 20 myh Stryd Fawr, Bryngwran** - Nid yw'r arwydd yn weladwy gan ei fod y tu ôl i lamp. Bydd y Clerc yn cyfeirio'r mater at y Cyngor Sir
8.6	**Stryd Salem** - Cytunwyd gofyn i'r Cyngor Sir osod twmpathau yn Salem St. Bydd y Clerc yn gofyn i'r Cyngor Sir
9	**MATERION ARIANNOL**
	Cytunwyd i dalu:
9.1	Playquest £7220.00 – matting cae chwarae
9.2	Zurich Municipal £480.07 – yswiriant blynyddol
9.3	Cyngor Ynys Mon £80.24 – rhent blynyddol y cae chwarae
10	**MATERION AR GYFER Y RHAGLEN NESAF**
10.1	Rhif 1 (Tai Watkin Jones)
10.2	Byrddau a meinciau yn y cae chwarae
	Llofnod…….Cadeirydd 14.07.21